**Reviewed 09/05/2013**

PEMBROKESHIRE BIODIVERSITY PARTNERSHIP

PARTNERIAETH BIOAMRWYIAETH SIR BENFRO

# Cynllun Gweithredu Cynefin: Gweunydd

## Cyflwyniad

### Maes

Mae'r cynllun gweithredu cynefin cyfun (HAP) hwn ar gyfer:

- Gweunydd arfordirol
- Gweunydd iseldir
- Gweunydd ucheldir (uwch lefel uchaf amgaead amaethyddol).

O ganlyniad i reolaeth "draddodiadol" megis llosgi a phori, a ffactorau naturiol megis hinsawdd a safon y pridd, mae gweunydd yn tueddu i ffurfio cynefinoedd mosaig gyda glaswelltiroedd a phrysgoed. Yn y cynllun hwn, bydd y term "gweunydd" yn cael ei ddefnyddio'n gyffredinol i ddisgrifio tirwedd nodweddiadol agored sydd â mosaic o grug, glaswelltir, a phrysgwydd, yn hytrach na diffiniad manylach y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol (NVC). Nid yw'r cynllun yn cynnwys glaswelltiroedd sydd heb ffurfio mosaic gyda chymunedau llystyfiant gweunydd (gweler CGC Glaswelltir) nac ychwaith prysgwydd sydd heb ffurfio mosaic gyda chymunedau llystyfiant gweunydd (gweler CGC Arfordir, Trefol/Tir Llwyd, Amaethyddol, neu Goetir yn ôl yr angen).
Mae ystod o rywogaethau, megis y Frân Goesgoch, y Cudyll Coch, a Mursen Las Penfro, sy'n gysylltiedig â gweunydd sydd hefyd â Chynlluniau Gweithredu Rhywogaeth (SAP) unigryw. Bydd y gweithredoedd o fewn y cynllun hwn yn buddio'r rhywogaethau yma, ac eraill sydd yn defnyddio cynefinoedd gweunydd yn ystod eu cylchredau bywyd.

### Ein Gweledigaeth

Dros y bum mlynedd nesaf bydd y partneriaid yn gwella cyflwr a maint cynefinoedd gweunydd yn Sir Benfro, gan ystyried y cyfyngiadau a osodir gan botensial tir, er mwyn cefnogi'r cynefinoedd yma. Mae gweundir yn ffurfio mosaic agored o gynefinoedd, yn aml gyda glaswelltir a phrysgwydd arfordirol neu redyn. Cydnabyddir fod rhedyn, a phrysgwydd arfordirol aeddfed sydd

gyda'r potensial o esblygu'n goetir yn gynefinoedd yn eu rhinwedd eu hunain, ac maent yn cyfrannu tuag at werth bioamrywiaeth. Efallai bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu cynnwys mewn cynllun gwahanol yn y dyfodol (megis CGC Coetir). Dylid ystyried cyfundrefnau hanesyddol y safle wrth lywio'r rheolaeth ohono (ond heb ei gyfyngu) er mwyn manteisio'n llawn ar gynnydd bioamrywiaeth.

# Disgrifiad o'r Cynefinoedd

Mae gweunydd Sir Benfro yn aml yn ffurfio mosaic gyda chynefinoedd eraill, megis prysgwydd, glaswelltiroedd corslyd, trylifiadau, corsydd, ffeniau, a thir moel. Yn aml mae gweunydd sych yn graddoli'n weunydd gwlyb, ond ar elltydd arfordirol mae gweunydd yr arfordir a/neu'r iseldir yn tueddu i raddoli yn laswelltir morol.

Mae gweunydd gwlyb, glaswelltiroedd, a ffeniau yn ffurfio mosaic cynefinoedd cymhleth a adnabyddir fel rhostir yng Nghymru. Mae rhosydd yn benodol yn gynefin bwysig iawn ar gyfer rhywogaethau megis Britheg y Gors, Crafanc-y-fran Dridarn, Pelenllys Gronynnog, Mursen Las Penfro, Tafod-y-gors Gwelw, y Ganrhi Felen Eiddil, a'r Mwsogl Pluog. O ran rhywogaethau adar, mae'r Ehedydd, Llinosiaid, Corhedydd y Coed, a'n ddiweddar Telor Dartford, oll i'w canfod ar weunydd Sir Benfro.

# Cadwraeth Gweunydd

Mae llawer o weunydd oedd yn gyfoethog o ran eu rhywogaethau wedi'u colli yng Nghymru o ganlyniad i esgeulustod neu ddwysau amaethyddiaeth. Ond yn Sir Benfro mae ardaloedd sylweddol o weunydd lled-naturiol wedi goroesi, ac mae cyfran ohono'n cael ei adfer trwy reolaeth ffafriol- yn bennaf o ganlyniad i fentrau gan bartneriaid megis Gweunydd Byw Sir Benfro (2000-2005), a gefnogwyd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri; a'r prosiect Gwarchod Elltydd Arfordirol gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (1999-2002), a gefnogwyd gan gronfa EAGGF yr Undeb Ewropeaidd. Yn dilyn y mentrau yma, mae Prosiect Gweunydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi bod adfer gweunydd yr iseldir a'r arfordir rhag esgeulustod, ac mae'r gefnogaeth i dirfeddianwyr preifat sy'n rheoli gweunydd wedi parhau o ganlyniad i brosiect Gwarchod y Parc gan APCAP.

Mae pori gyda stoc addas yn hanfodol wrth gynnal gweunydd a'r mosaic cynefinoedd cysylltiedig; gall gormod o bori fod yn niweidiol (gan arwain at laswelltir yn lledaenu) yn ogystal â dim digon o bori (sydd yn arwain at ledaeniad prysgwydd). Yn hanesyddol mae gweunydd mewn rhai ardaloedd wedi cael ei losgi er mwyn rheoli lledaeniad prysgwydd- gan alluogi stoc i bori ar y safle. Mae rhai rhywogaethau sy'n gysylltiedig â gweunydd, megis y cen *Cladonia pezizformis,* yn ddibynnol ar losgi'r gweunydd o dro i dro.

Mae 10% o'r holl weunydd yr iseldir yng Nghymru i'w cael yn Sir Benfro. Mae'r ffaith fod dau draean o'r gyfran honno yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) yn tystio eu bod o werth cenedlaethol.

O ran gwahaniaethu rhwng gweunydd yr iseldir a glaswelltir asid, dylid dyfarnu unrhyw gynefin sydd â llai na 25% wedi'i orchuddio gan brysgwydd yn laswelltir, a'r rhai â thros 25% yn weunydd.

# Peryglon

Daw peryglon i'r cynefinoedd hyn gan:

- **Gormod o faeth** – o ganlyniad i oferiad amaethyddol, gwrteithio, neu ddyddodiad awyrol o nitrogen (mwy tebygol ymhell o'r arfordir);
- **Esgeuluso a/neu reolaeth anaddas**- math o stoc; dwysedd, amseriad, a hyd unrhyw bori; amseriad a rheolaeth unrhyw losgi; cynlluniau torri anaddas;
- **Dwysâd amaethyddiaeth** - gan arwain at golli cynefinoedd;
- **Gwastraff yn cael ei adael**– mae hyn yn digwydd yn aml ar dir comin, a gall fod yn beryglus i stoc trwy rwystro pori buddiol. Gall hefyd fod yn fector i rywogaethau anfrodorol ymledu i'r safle.
- **Newid hinsawdd**- gall tymhorau cynhesach a gwlypach arwain at gynnydd yn nhyfiant rhywogaethau planhigol, gan arwain yn ei dro at ddwysau stoc pori. Ar y llaw arall, gall mwy o law beri i rai safle fod yn anaddas i bori, yn enwedig â dwysedd stoc uwch.

# Polisïau a Chynlluniau Cysylltiedig

Dyma restr o gynlluniau/polisïau fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar y rheolaeth o'r cynefinoedd hyn yn Sir Benfro:

- Strategaeth Cadwraeth Brain Coesgoch ar gyfer Sir Benfro. PCNPA, 1994.
- Gwarchod Elltydd Arfordirol 1999-2002. Adroddiad prosiect. PCNPA, 2003.
- Cynlluniau Rheolaeth SSSI: http://naturalresourceswales.gov.uk/our-work/policy-advice-guidance/designated-sites/?lang=en
- Cynlluniau Rheolaeth SAC: http://naturalresourceswales.gov.uk/our-work/policy-advice-guidance/designated-sites/?lang=en
- Ardal Warchodaeth Arbennig Penrhyn Dewi: http://naturalresourceswales.gov.uk/our-work/policy-advice-guidance/designated-sites/?lang=en
- Cynllun Gweithredu Cynefin Arfordirol: http://ukbars.defra.gov.uk/project/show/36376
- Cynllun Gweithredu Cynefin Glaswelltiroedd: http://ukbars.defra.gov.uk/project/show/36376
- Cynllun Gweithredu Cynefin Coetiroedd: http://ukbars.defra.gov.uk/project/show/36376
- Crynodeb a map cynefinoedd gweunydd neilltuol WBP Cynllun Arfordirol Sir Benfro <http://www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Lowland-Grassland--Heathland>

**Reviewed 09/05/2013**

- Crynodeb a mapiau cynefinoedd neilltuol WBP Preseli a Charningli [http://www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Lowland-Grassland--Heathland](http://www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Lowland-Grassland--Heathland)

# Rhywogaethau sy'n gysylltiedig â Gweunydd yn Sir Benfro

| **Rhywogaeth â blaenoriaeth sy'n gysylltiedig â'r Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd hyn** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Enw'r rhywogaeth | Enw Cyffredin | Rhywogaeth UK Bab | Rhestr S42 Rhywogaethau Cymru | Rhywogaeth bwysig yn lleol |
| **Adar** | | | | |
| *Alauda arvensis subsp. arvensis/scotica* | Ehedydd | ✓ | ✓ | |
| *Anthus trivialis* | Corhedydd y Coed | ✓ | ✓ | |
| *Asio flammeus* | Tylluan Glustiog | | | ✓ |
| *Carduelis cabaret* | Llinos Bengoch Leiaf | ✓ | ✓ | |
| *Carduelis cannabina subsp. autochthona/cannabina* | Llinos Gyffredin | ✓ | ✓ | |
| *Circus cyaneus* | Boda Tinwyn | | ✓ | |
| *Cuculus canorus* | Y Gwcw | ✓ | ✓ | |
| *Emberiza citrinella* | Bras Melyn | ✓ | ✓ | |
| *Emberiza schoeniclus* | Bras y Cyrs | ✓ | ✓ | |
| *Falco tinnunculus* | Cudyll Coch | | ✓ | |
| *Locustella naevia* | Troellwr Bach | ✓ | ✓ | |
| *Milvus milvus* | Barcud | | | ✓ |
| *Numenius arquata* | Gylfinir | ✓ | ✓ | |
| *Prunella modularis subsp. occidentalis* | Llwyd Gwrych | | ✓ | |
| *Pyrrhocorax pyrrhocorax* | Brân Goesgoch | | ✓ | |
| *Pyrrhula pyrrhula subs. pileata* | Coch y Berllan | ✓ | ✓ | |
| *Saxicola rubetra* | Crec yr Eithin | | | ✓ |
| *Saxicola torquata* | Clochdar Cerrig | | | ✓ |
| *Sylvia undata* | Telor Dartford | | | ✓ |
| *Turdus philomelos subs. clarkei* | Bronfraith | ✓ | ✓ | |
| *Tyto alba* | Tylluan Wen | | | ✓ |
| **Ymlusgiaid / Amffibiaid** | | | | |
| *Anguis fragilis* | Neidr Ddefaid | ✓ | ✓ | |
| *Natrix natrix* | Neidr y Gwair | ✓ | ✓ | |
| *Vipera berus* | Gwiber | ✓ | ✓ | |
| *Zootoca vivipara* | Madfall Cyffredin | ✓ | ✓ | |
| **Pryfed** | | | | |
| *Coenagrion mercuriale* | Mursen Las Penfro | ✓ | ✓ | |
| *Eurodryas aurinia* | Britheg y Gors | ✓ | ✓ | |
| *Hipparchia semile* | Gweirloyn Llwyd | | ✓ | |
| *Plebejus argus* | Glesyn Serennog | | ✓ | |
| *Pyrgus malvae* | Gwibiwr Brith | ✓ | ✓ | |
| **Planhigion Fascwlaidd** | | | | |

**Reviewed 09/05/2013**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Chamaemelum nobile* | Camri | ✓ | ✓ | |
| *Cicendia filiformis* | Ycanri Felen Eiddil | ✓ | ✓ | |
| *Euphrasia anglica* | Effros Lloegr | ✓ | ✓ | |
| *Genista pilosa* | Corfanhadlen Flewog | | | ✓ |
| *Gentianella campestris* | Crwynllys y Maes | | ✓ | |
| *Luronium natans* | Llyriad-y-Dŵr Arnofiol | ✓ | ✓ | |
| *Lycopodiella inundata* | Cnwp-fwsogl y Gors | ✓ | ✓ | |
| *Lycopodium clavatum* | Cnwp-fwsogl Corn Carw | | ✓ | |
| *Pilularia globulifera* | Pelenllys Gronynnog | ✓ | ✓ | |
| *Pinguicula lusitanica* | Tafod y Gors Gwelw | | | ✓ |
| *Plantanthera bifolia* | Tegeirian Llydanwyrdd Bach | | ✓ | |
| *Ranunculus tripartitus* | Crafanc-y-fran Dridarn | ✓ | ✓ | |
| *Scleranthus annuus* | Dinodd Unflwydd | ✓ | ✓ | |
| *Scleranthus annuus subsp. annuus* | Dinodd Unflwydd | | ✓ | |
| *Veronica spicata* | Rhwyddlwyn Pigfain | | | ✓ |
| *Vicia orobus* | Ffacbysen Chwerw | | ✓ | |
| *Viola lactea* | Fioled Welw | ✓ | ✓ | |
| **Is-blanhigion a Ffyngau** | | | | |
| *Cladonia peziziformis* | Cen | ✓ | ✓ | |
| *Cryptomyces maximus* | Chwysigen Helyg | | | ✓ |
| *Fossombronia foveolata* | Afuad | ✓ | ✓ | |

**Reviewed 09/05/2013**

# Amcanion y Cynllun

| Cyf. | Amcan | Terfyn | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| HE1 | Cynnal gweithrediad yr ecosystem trwy osgoi unrhyw anghysylltiad pellach o'r cynefinoedd o fewn y cynllun. | Mai 2018 | |
| HE2 | Cynnal ystod a chyflwr o gynefinoedd gweunydd trwy gefnogi a hybu rheolaeth trwy bori, cynlluniau llosgi, torri prysgoed, a darparu isadeiledd pan fydd y tir yn caniatáu hynny. | Mai 2018 | Argymhellwyd gan y grŵp ecosystem ar gyfer ardal flaenoriaeth Preseli a Charningli a Glaswelltir a Gweundiroedd Arfordirol Sir Benfro. |
| HE3 | Sicrhau bod cynefinoedd gweundir mewn cyflwr ffafriol trwy reoli rhywogaethau ymledol anfrodorol. | Mai 2018 | |
| HE4 | Sicrhau bod cynefinoedd gweundir mewn cyflwr ffafriol trwy adnabod cyfloed i ddatrys problemau o gynyddu lefelau maeth y tir o ganlyniad i reolaeth o dir amaeth cyfagos. | Mai 2018 | |
| HE5 | Manteisio ar gyfleodd addas i adfer cynefinoedd gweunydd trwy dorri prysgoed, ffensio, torri, llosgi, pori, a/neu greu ardaloedd o dir moel a phonciau heb lawer o lystyfiant. | Mai 2018 | |
| HE6 | Manteisio ar gyfleodd addas i greu cynefinoedd gweunydd er mwyn gwella cysylltedd neu weithrediad yr ecosystem. | Mai 2018 | |

# Gweithredoedd

| Cod | Gweithred | Prif Rôl | Cynnydd / Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|
| HE1.1 | | | |

**Reviewed 09/05/2013**

| | | | |
|---|---|---|---|
| HE2.1 | Marchnata cynnyrch gradd cadwraeth a ddaw o dir sy'n cael ei reoli ar gyfer bioamrywiaeth, gan hybu'r galw am bori ar weunydd. | NT | |
| HE3.1 | Difa Corchwyn Seland Newydd (*Crassula helmsii*) o lyn sy'n llawn ohono yn Waun Fawr, Tyddewi (SSSI/ASSI). | NT | |
| HE3.2 | Difa Corchwyn Seland Newydd (*Crassula helmsii*) o lyn ar Faes Awyr Tyddewi (ger gweunydd Maes Awyr Tyddewi /SAC) | PCNPA | Wedi'i gynllunio ar gyfer Mehefin/Gorffennaf 2013 (ffensys dros dro i'w codi er mwyn cadw cŵn o'r dŵr- gaeaf 2012/13) |
| HE4.1 | | | |
| HE5.1 | | | |
| HE6.1 | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |